Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# ASESIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL

## 2024 / 2025

## CIPOLWG




**Amcan Gwella a Llesiant Un** – Byddwn yn gwella ein diwylliant sefydliadol i sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y safonau a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern.

**Cyflawniadau Allweddol ar gyfer Amcan Un – Cyfnod Adrodd 2024/2025.**

- Sefydlu Bwrdd a Gweithgor Diwylliant a Chynhwysiant i yrru newid diwylliannol ar draws y Gwasanaeth.
- Datblygu Cynllun Gweithredu Diwylliant a Chynhwysiant sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu, ar ymgorffori ymddygiadau Gwasanaeth, ac ar adolygu hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Lansio cylchlythyr Gweithgor Diwylliant a Chynhwysiant i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf a'r cynnydd a wneir yn erbyn y Cynllun Gweithredu.
- Cyflwyno gweminarau dan arweiniad y Prif Swyddog Tân i gael staff i ymgysylltu â thaith ddiwylliannol y Gwasanaeth.
- Cyflwyno hyfforddiant 'Active Bystander' i'r holl staff (Medi 2024) fel rhan o'r rhaglen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ddiwygiedig.
- Cyhoeddi Prosbectws Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol 2025, gan gynnwys cymwysterau a gwobrau aseswyr a hyfforddwyr Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth, a gweithdai ar wydnwch, diogelwch seicolegol, ac arweinyddiaeth gynhwysol.
- Cyflwyno cynllun Hyfforddi a Mentora newydd i gefnogi datblygiad staff a dilyniant gyrfa.
- Cyhoeddi Adolygiad Crest (Chwefror 2025) a gwaith ar yr argymhellion allweddol.
- Ffurfio'r Tîm Pobl a Diwylliant i arwain mentrau newid diwylliannol sy'n cyd-fynd ag adroddiad Crest.

- Datblygu Strategaeth Llesiant a Chynllun Gweithredu (Mehefin 2025) i hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol.
- Sefydlu Llinell Adrodd Annibynnol (Speak Up), Bwrdd Safonau Proffesiynol a Bwrdd Diogelu.
- Adolygu a diweddaru'r Weithdrefn Rheoli Straen yn y Gwaith, gan gynnwys Asesiad Risg Straen newydd.
- Diweddaru'r broses recriwtio diffoddwyr tân amser cyflawn, gan gynnwys:
    - Gwell deunyddiau hyrwyddo (e.e. fideos)
    - Trefn symlach ar gyfer cofrestru a phrofi
    - Asesiadau ymddygiadol a sefyllfaol
    - Diwygio’r Prawf Dethol Pwynt Mynediad (POEST)
- Wedi ymgorffori Ymddygiadau’r Gwasanaeth yn y prosesau recriwtio, cyfweld a dyrchafu.
- Cydweithio â One Step North i edrych ar dechnolegau rhyngweithiol, gan gynnwys modelu 3D.
- Cychwyn recriwtio Arbenigwr Diwylliant Sefydliadol trwy NEPO 3 a Bloom Procurement.
- Cwblhau adolygiad llawn o adrannau Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol a Chyflenwi Hyfforddiant.

**Amcan Gwella a Llesiant Dau** – Byddwn yn parhau i fod wedi ymrwymo i wneud gwelliannau i'n system Dyletswydd Ar Alwad i gefnogi anghenion ein cymunedau.

**Cyflawniadau Allweddol ar gyfer Amcan Dau – Cyfnod Adrodd 2024/2025.**

- Cynnydd o 2.3% yn argaeledd Ar Alwad cyffredinol ar gyfer cyfnod adrodd 2024/2025, gyda gwelliannau amlwg yn Abertawe ac yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Cynnal Cynhadledd Ar Alwad ar 28 Ebrill 2024.
- Treialu cyfweliadau aros yn Rhanbarth y Gogledd er mwyn helpu i gadw staff.
- Coladu data o gyfweliadau gadael er mwyn nodi tueddiadau ac i lywio meysydd ffocws yn y dyfodol.
- Archwilio datblygiad ap penodol ar gyfer diffoddwyr tân Ar Alwad er mwyn gwella cyfathrebu.
- Cyflwyno taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer staff Ar Alwad sydd â phum mlynedd neu fwy o wasanaeth.
- Gwell darpariaethau hyfforddd, gan gynnwys elfen cwrs BA ymarferol dewisol ar gyfer Rheolwyr Gwylfa, cyfraddau cyflog uwch yn sgil hyfforddiant, a dileu'r gofyniad i ‘fwcio amser i ffwrdd’ ar ôl digwyddiadau gweithredol.
- Cyflogi dau Eiriolwr Recriwtio Ar Alwad i gefnogi ymgyrchoedd rhanbarthol a diogelwch cymunedol.
- Cyflwyno 25 o fentrau recriwtio rhwng Awst 2024 a Ionawr 2025.

- Symleiddio’r broses recriwtio: Lleihau’r amser rhwng mynegi diddordeb a chyflogaeth, cyflwyno hyfforddiant Modiwl A yn yr orsaf, lleihau oedi, ac adolygu Modiwl B i leihau'r effaith ar brif gyflogaeth ymgeiswyr.
- Datblygu strategaethau cynllunio a recriwtio'r gweithlu yn seiliedig ar orsafoedd.
- Creu cynlluniau recriwtio 12 mis ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr ym mhob gorsaf.
- Adolygu Profion Pwynt Mynediad i leihau ymrwymiad amser ymgeiswyr.
- Edrych ar opsiynau i adnewyddu/disodli'r system mobileiddio Rappel.
- Caffael y system Argaeledd, Recriwtio a Sgiliau Ar-alwad (OARS) i wella'r defnydd o ddata mewn recriwtio, amrywiaeth a chynllunio'r gweithlu.
- Gweithredu bandiau cyflog newydd ar gyfer diffoddwyr tân Ar Alwad (Ionawr 2025), gan roi cynnydd sylweddol i gyflog yn seiliedig ar argaeledd.
- Treialu peilot o gael gyrrwr penodol sydd ddim yn gwisgo offer anadlu gyda’r nod o helpu i gadw staff.
- Edrych ar gontractau deuol ar gyfer staff y Llyfr Gwyrdd i annog cyfranogiad Ar Alwad ac i ymestyn buddion.
- Darparu £1,000 ar gyfer gorsafoedd dau beiriant a £500 ar gyfer gorsafoedd un peiriant i gynnal dyddiau cydnabod teuluoedd a chyflogwyr.

**Amcan Gwella a Llesiant Tri** – Byddwn yn adolygu'r risgiau o fewn ein cymunedau ac i'n pobl.

**Cyflawniadau Allweddol ar gyfer Amcan Tri – Cyfnod Adrodd 2024/2025.**

- Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu i edrych ar opsiynau Achub â Rhaffau sy'n canolbwyntio ar ddamweiniau.
- Lansio Gweithgor Tanau Gwyllt yn dilyn adolygiad strategol; ffurfio partneriaethau gyda Pharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro, a thirfeddianwyr.
- Cynnal Cyfarfod Cymru Gyfan gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i drafod caffael asedau hofrennydd.
- PDR Pro wedi'i ddiweddaru i gynnwys pecynnau Hyfforddiant Tanau Gwyllt Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.
- Datrysiadau cerbydau amlbwrpas wedi’u datblygu o dan y rhaglen amnewid cyfalaf.
- Data gwasanaeth wedi’i ddilysu gan ORH a modelu senarios ymateb brys i helpu gyda chynllunio atal, amddiffyn ac ymateb.
- Proffiliau Risg Gorsaf enghreifftiol wedi'u creu ar gyfer Treforys (2-2-4), Aberystwyth (Criw Dydd), a Dinbych-y-pysgod (Ar Alwad).
- Tîm Diogelwch Cymunedol wedi parhau i adnabod unigolion agored i niwed.
- Adolygu Rhaglen Diogelwch Cymunedol 3 blynedd i asesu sut mae Atal a Diogelu yn cael ei gyflawni.
- Tîm Diogelwch Tân Busnes wedi ehangu’r model cyflawni i alluogi criwiau rheng flaen i gynnal archwiliadau diogelwch tân sylfaenol.

- Proses hysbysiadau Gwaharddiad 10 wedi'u hadolygu ar gyfer cyfathrebu â rhanddeiliaid yn well.
- Adolygu digwyddiad ffocws Llithro, Baglu a Chwympo – gostyngiad sylweddol mewn anafiadau (2022: 8, 2023: 9, 2024: 1).
- Adolygu'r weithdrefn asesu risg; gosod Cyfradd Digwyddiadau Damweiniau Gwasanaeth ar 5.
- Hyfforddiant ymchwilio i ddamweiniau a dynladdiad corfforaethol wedi'i ddarparu.
- Adolygiadau wedi'u cwblhau ar ddefnyddio Cymorth Clyw, Dogfen Ganllawiau Gweithdrefnol Rheoli Straen (PGD), a gweithdrefnau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).
- Edrych ar welliannau o ran cyfathrebu Iechyd a Diogelwch dwy ffordd; datblygu system Evotix Assure ymhellach.
- Ymgorffori Sicrwydd Strategol; Offer a Sicrwydd Gweithredol (OEA) wedi cynnal arolygiadau adweithiol.
- Lansio treial Monitro Gweithredol gan ddefnyddio Rheolwyr Gorsafoedd Dyletswydd Dydd.
- Parhau i integreiddio Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol (NOG); digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid, tanau ac adeiladau wedi'u hychwanegu at y gweithdrefnau.
- Gweithdrefn Gorsaf Glân wedi'i gyflwyno gan ddefnyddio egwyddorion parthau.
- Sefydlu system Cofnodi Amlygiad ar gyfer Hyfforddwyr Offer Anadlu.
- Trafodaethau ymwybyddiaeth canser wedi'u cynnal gydag Insync; ystyried sgrinio ar gyfer profion meddygol arferol.
- Cardiau meddygol cod darllen y GIG wedi'u dosbarthu i orsafoedd.
- Cyflwyniad halogion wedi'i gyflwyno; Nodyn Gwybodaeth Weithredol (OIN) wedi'i gyhoeddi a gwerthusiad wedi'i gynllunio.
- Gwaith ymchwil Prifysgol Abertawe wedi dechrau ar effeithiau ar system imiwnedd diffoddwyr tân.
- Yr adran ystadau wedi edrych ar ddefnyddio parthau glân/budr yng Nghyfleuster Hyfforddi Earlswood.

**Amcan Gwella a Llesiant Pedwar** – Byddwn yn adolygu ac yn gweithredu newidiadau i'r ffordd yr ydym yn ymateb i argyfyngau i fodloni gofynion newidiol ein cymuned.

**Cyflawniadau Allweddol ar gyfer Amcan Pedwar – Cyfnod Adrodd 2024/2025.**

- Templedi Proffil Risg Gorsaf wedi'u creu ar gyfer pob system ddyletswydd.
- Gwaith ymgysylltu wedi'i wneud i wella dealltwriaeth o anghenion cymunedol.
- Adolygiad o'r Rota Swyddog Tactegol (TOR); edrych ar opsiynau i wella sut mae patrymau shifftiau'n cael eu rheoli.
- Cynnal treial lle'r oedd y defnydd o Offer Anadlu yn ddewisol ar gyfer gyrwyr Ar-Alwad, i gydbwyso anghenion a chymwyseddau gorsafoedd.
- Cyflwyno cynnig ffurfiol i Undeb y Brigadau Tân gael ymgynghoriad ar opsiynau criwio ar gyfer gorsafoedd 2-2-4.

- Adolygu’r model Criwio Dydd Fflecsi (FDC) gyda gwelliannau i’r rhestr ddyletswyddau.
- Cynnydd ar yr adolygiad o'r rhaglen Hyfforddiant a Datblygu.
- Treialon offer wedi parhau ar draws y Gwasanaeth.
- Grŵp Cerbydau Trydan wedi'i sefydlu i edrych ar dactegau diffodd tanau ar gyfer cerbydau trydan.
- Adolygu tactegau tân gwastraff ar sail Cymru Gyfan.
- Cwblhau arolygiad Prif Gynghorydd Tân ac Achub ac Arolygydd Cymru; ffurfio gweithgor i weithredu argymhellion.
- Cynnal cyfarfod gydag Academi Brandweer i lywio tactegau tanau strwythur gyda’r Model Cwadrant.
- Ystyried cynnig treial Anfon Allan Deinamig.
- Lansio prosiect anfon allan gyda gweithdai (Hydref 2024).
- Cwblhau gwaith casglu gwybodaeth am y farchnad meddalwedd – cafwyd 8 datganiad o ddiddordeb, cyflwynwyd 5 arddangosiad.
- Ffurfio gweithgorau; mynegodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ddiddordeb mewn caffael ar y cyd.

**Amcan Gwella a Llesiant Pump** – Byddwn yn adolygu ein strategaethau Atal (Diogelwch Cymunedol) ac Amddiffyn (Diogelwch Tân Busnes) yn barhaus i dargedu a chefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

**Cyflawniadau Allweddol ar gyfer Amcan Pump – Cyfnod Adrodd 2024/2025.**

- Gweithredu dull ymateb newydd, gan leihau ymatebion i system larwm awtomatig annomestig o tua 84% (95 galwad y mis), gan arbed amcangyfrif o £86,270 erbyn mis Mawrth 2025.

  Dogfen Ganllawiau Gweithdrefnol wedi'i ddatblygu, a hyfforddiant wedi'i ddarparu; ymgysylltu yn parhau â safleoedd lle ceir caniadau parhaus.
- Cyflwyno Rhaglen Arolygu Seiliedig ar Risg wedi’i diwygio.
- Cynnal 1,231 o archwiliadau, 659 o ymgynghoriadau adeiladu, 22 o Hysbysiadau Gwahardd, 34 o Hysbysiadau Gorfodi, ac 1 Hysbysiad Newid.
- Cwblhau 1,452 darn o waith ymgynghorol.
- Hyfforddi criwiau’r ochr weithredol i gynnal ymweliadau diogelwch tân sylfaenol.
- Cyflwyno rhybuddion Syml fel offeryn gorfodi.
- Parhau i gydweithio â'r Tîm Arolygu ar y Cyd.
- Rhoi hyfforddiant Diogelwch Tân i holl griwiau’r ochr weithredol.
- Hyfforddi staff i gael Diploma Lefel 5 mewn Dylunio Peirianneg Tân.
- Ymgysylltu parhaus â Llywodraeth Cymru ar ddiwygio diogelwch adeiladau.
- 97 o arolygon diogelwch tân Math 4 wedi’u cael ar gyfer adeiladau preswyl uchel.
- Ymgysylltu â 58,000+ o blant a phobl ifanc drwy ysgolion a rhaglenni ieuenctid.

- Cyrsiau Ffenics: 158 wedi cofrestru, 145 wedi'u hachredu.
- Digwyddiad Criw Craidd wedi cysylltu â dros 1,000 o ddisgyblion oed cynradd.
- Sesiynau Crime Time wedi'u cyflwyno gyda phartneriaid aml-asiantaeth.
- Sesiynau Addysg Gartref Dewisol wedi'u cynnal yn Hwlffordd.
- Cyflwyniadau diogelwch ar y ffyrdd wedi'u rhoi i 366 o bobl ifanc (Chwefror 2025).
- Cannoedd o yrwyr wedi'u haddysgu gan Ymgyrch Ugain.
- Grŵp Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan yn ennill Gwobr Atal Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.
- Lester James, Wayne Bream, ac eraill wedi cael gwobrau unigol.
- Swyddogion Addysg wedi cefnogi digwyddiadau haf a sioeau diogelwch ar y ffyrdd (e.e. Sioe Frenhinol Cymru, Rali Ceredigion).
- Cyflwyno diogelwch ar y ffyrdd amlasiantaeth yn ysgolion Powys.
- Lansio siop dros dro yn Abertawe gyda Heddlu De Cymru a Chyngor Abertawe.
- Ymyriadau tanau bwriadol ar draws y Gwasanaeth.
- Ymweliad safle yn Aberdaugleddau gyda Heddlu Dyfed Powys.
- Parhau i gydweithio â'r Grŵp Llosgi Bwriadol ar y Cyd a Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru.
- Cynrychiolwyr y gwasanaeth wedi bod yng Nghynhadledd Tanau Gwyllt yn Aberdeen.
- Gwaith tymhorol i wella ymwybyddiaeth cyn y tymor tân glaswellt.
- **Gwiriadau Diogelwch yn y Cartref (HSC)**: Cwblhawyd 10,668 yn ystod y cyfnod adrodd: 4,479 gan staff Diogelwch Cymunedol, 5,143 gan Orsafoedd a 776 gan sefydliadau partner.



**Amcan Gwelliant a Llesiant Chwech** – Byddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â'n cymunedau i ddeall eu disgwyliadau ohonom.

**Cyflawniadau Allweddol ar gyfer Amcan Chwech – Cyfnod Adrodd 2024/2025.**

- Hyrwyddo Dweud eich Dweud pan fo gorsafoedd yn cynnal dyddiau agored, mewn digwyddiadau golchi ceir, sioeau amaethyddol, a digwyddiadau mawr.
- Cafwyd 728 o ymatebion i'r arolwg; mynegodd 93.9% fod ganddynt hyder yn y Gwasanaeth.
- Disgwyliad amser ymateb mwyaf cyffredin: *o fewn 10 munud*.
- Cynnal 34 o sesiynau galw heibio, gweminarau ar-lein, a chyfarfodydd gyda chynrychiolwyr etholedig
- Gwerthusiad ôl-ymgysylltu wedi'i gwblhau.
- Papur materion a dogfen gwmpasu wedi'u datblygu.
- Lansio fforymau "Ystafelloedd Cytbwys" er mwyn cynnal deialog cynhwysol â rhanddeiliaid.
- Rhyddhau fideos CRhRC 2040 i wella ymwybyddiaeth.
- Gwahodd staff i gyfarfodydd chwarterol Bwrdd Cyflawni Rheoli Risg Cymunedol i gael diweddariadau ar gynnydd.

- Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol wedi cynnal cymorthfeydd mewn gorsafoedd i drafod cynigion shifft 2-2-4.
- Y tîm Diogelwch Tân Busnesau wedi cynnal cyfarfodydd "Tîm Cyfan" misol i wella cyfathrebu mewnol.
- Ehangu digwyddiadau ymgysylltu busnes “Connect For" i Ranbarth y Gorllewin a Rhanbarth y De.
- Gweithdy Atal Targedu gan y Prif Swyddog Tân wedi’i gynnal fel rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.
- Rhwydwaith Llysgenhadon Cymunedol wedi'i sefydlu.
- Arbenigwr ymgynghori wedi'i gaffael; mabwysiadwyd model ymgysylltu 5 cam.
- Cynnal gweithdy mapio rhanddeiliaid.
- Dysgu parhaus gan sefydliadau sector cyhoeddus eraill a chan strategaethau ymgysylltu’r Gwasanaeth Tan ac Achub.
- Cynllun cyfathrebu wedi'i ddatblygu.
- Yr adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes wedi gwerthuso ymgyrchoedd blaenorol ac archwilio strategaethau newydd.
- Cynnal sesiynau ymgysylltu â chyflenwyr.
- Timau Caffael ac Adnoddau Dynol wedi cymryd rhan mewn grwpiau gorchwyl a gorffen a digwyddiadau cyflenwyr.
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr Undebau Llafur.
- Diweddariadau CRhRC 2040 wedi'u cynnwys fel eitem agenda sefydlog.
- Cylchredeg papur opsiynau criw; trafodaethau wedi’u dechrau.
- Adroddiad Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol wedi'i ddrafftio er mwyn rhoi tystiolaeth o gydymffurfiaeth.



**Amcan Gwella a Llesiant Saith** – Byddwn yn gweithio mewn ffordd amgylcheddol gyfeillgar a chynaliadwy.

**Cyflawniadau Allweddol ar gyfer Amcan Saith – Cyfnod Adrodd 2024/2025.**

- Taenlen Carbon Sero Net wedi'i diweddaru a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Map Ffordd Lleihau Carbon wedi’i ddatblygu gan ddefnyddio data ymgynghoriaeth Ricardo.
- Cymeradwyo Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol (2023/24).
- Gwerthuso fflyd Cerbydau Trydan (EV); arolwg wedi'i ddrafftio ar gyfer mewnbwn ehangach.
- Treial tanwydd Olew Llysiau Hydrogenedig (HVO) wedi'i gwblhau.
- Gwaith ymchwil cychwynnol ar Gerbydau Celloedd Tanwydd Hydrogen (FCEV) ar y gweill.
- Tîm ystadau yn edrych ar ddefnyddio Olew Llysiau Hydrogenedig ym moeleri Earlswood.
- Cael grant gwefru Ceir Trydan o £128,000.
- Cyflwyno mynegiant o ddiddordeb ar gyfer cyllid solar to Salix.
- Grant gwres carbon isel o £70,500 (gwresogi ffynhonnell aer) wedi'i gymeradwyo (Cam 1).

- Cynnydd ar y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol ar gyfer diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys tactegau diffodd tanau.
- Cynnal trafodaethau asesu risg amgylcheddol gyda CNC.
- Mesuryddion llif wedi'u treialu ar offer i fonitro'r defnydd o ddŵr mewn digwyddiadau.
- Ystyried defnyddio pympiau dŵr trydan wrth hyfforddi.
- Treialu offer Gwrthdrawiadau ar y Ffyrdd wedi'u pweru gan fatri, chwythwr tanau gwyllt a ffan.
- Dyfarnu tender i Clan Tools ar gyfer offer Gwrthdrawiad ar y Ffordd trydan.
- Chwistrelli niwl pwysedd uchel / isel wedi'u treialu i leihau'r defnydd o ddŵr.
- Parhau i dreialu dŵr wedi'i drin â golau uwchfioled gyda Dŵr Cymru a CNC.
- Treial sector cyhoeddus cyntaf o fonitro ynni ym Mhencadlys y Gwasanaeth drwy Gynllun Llesiant Lyreco.
- Ystadau a Diogelwch Tân busnesau wedi cydweithio ar anghenion storio batri.
- Adolygiad o offer cyfarpar safonol ar y gweill.
- Datganoli'r pwll fflyd i'r Adrannau ar gyfer defnydd hyblyg o asedau.
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u hychwanegu at gontractau i gefnogi adroddiadau allyriadau Cwmpas 3.
- Cynnydd ar welliannau cynaliadwyedd y gadwyn gyflenwi.
- Cymeradwyo fframwaith darpariaeth bwyd Caerffili.
- Y Pennaeth Caffael wedi cymryd rhan mewn digwyddiad panel mentrau cymdeithasol.



**Amcan Gwelliant a Llesiant Wyth** – Byddwn yn datblygu ein gofynion fflyd ac offer fel y gallwn ymateb yn effeithiol i argyfyngau.

**Cyflawniadau Allweddol ar gyfer Amcan Wyth – Cyfnod Adrodd 2024/2025.**

- Gwaith ymchwil marchnad a meincnodi wedi'i wneud i ganfod opsiynau rheoli halogiad.
- Ymweliad â Gwasanaeth Tân ac Achub Dyfnaint a Gwlad yr Haf er mwyn adolygu cerbydau lles/diheintio Offer anadlu a pheiriannau canolig.
- Offer tân cab clir wedi'u cyflwyno i leihau amlygiad i halogion.
- Diwrnod arddangos cerbydau ac offer yng Nghanolfan Hyfforddi Earlswood.
- Creu catalog o fathau o gerbydau i gefnogi gwaith proffilio risg ac anghenion gweithredol.
- Gweithgor wedi'i sefydlu i dreialu ac i werthuso cerbydau ac offer.
- Tri chysyniad cerbyd wedi'u nodi er mwyn cael ystyriaeth pellach; papur opsiynau yn cael ei ddatblygu.
- Oedi'r gwaith o amnewid y fflyd peiriannau nes cynhelir adolygiad.
- Datblygu gwahoddiad i dendro gan ddefnyddio fframwaith Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Canolbarth Lloegr ar gyfer offer Gwrthdrawiad ar y Ffordd.
- Cynnal treialon offer mewn ymateb i argymhellion arolygu Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru.

- Ailsefydlu’r Gweithgor Tân Cerbydau Trydan i edrych ar dactegau diffodd tanau.
- Trafod opsiynau ôl-ffitio mesuryddion llif; arddangosiad offer batri i leihau'r defnydd o diesel.
- Dechrau adolygiad o offer peirannau er mwyn safoni’r rhestr stoc.
- Adolygu opsiynau Offer Gwarchod Personol aml-swyddogaeth er mwyn cyd-fynd â mathau a risgiau digwyddiadau.
- Datganoli’r pwll fflyd i’r Rhanbarthau a’r Adrannau ar gyfer gwell defnydd o asedau.